

caru cymru
Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales

# Rheoli Chwyn a Malurion

## Crynodeb

Cadwch Gymru'n Daclus, Tachwedd 2022

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

# Diffinio chwyn a malurion

Mae chwyn a malurion i'w cael ar y rhan fwyaf o'n strydoedd yng Nghymru. Mewn meintiau bach, nid ydynt yn achosi problemau fel arfer. Ond, pan fyddwn yn gadael iddynt gronni, maent yn mynd yn broblem all achosi effeithiau cronnol ac arwain at Cadwch Gymru'n Daclus ac awdurdodau lleol yn cael cwynion.

Yn y canllaw hwn, diffinnir chwyn fel planhigion sydd yn tyfu mewn mannau nas dymunir ac mae malurion yn ddeunyddiau naturiol sydd yn gallu cronni ar ffyrdd a phalmentydd yn cynnwys llwch, mwd, pridd, graean, gweddillion dail a llysiau.

# Effaith chwyn a malurion

Yn arolwg blynyddol Cadwch Gymru'n Daclus, mae 6% o strydoedd yng Nghymru yn casglu data ar Ddangosyddion Ansawdd Amgylcheddol Niweidiol (AEQI) ynghyd â data ar sbwriel. Mae chwyn a malurion yn ddau AEQI sydd wedi cael eu casglu ers 2007-2008 felly gwyddom fod y ddau wedi cael eu canfod yn gyson ar fwy nag 80% o strydoedd. Fodd bynnag, dim ond canran fach o strydoedd sydd â lefelau sydd yn peri problem.

Mae lefelau yn rhy uchel pan mae:

- Malurion
  - yn cuddio marciau ar y ffordd
  - yn creu perygl llithro, yn arbennig i bobl â phroblemau symudedd
  - yn cyfrannu at dyfiant chwyn eithafol
  - yn blocio draeniau a chafnau
- Chwyn
  - yn dal sbwriel
  - yn cyfrannu at ardal yn edrych yn anniben
  - yn niweidio muriau ac arwynebau
  - yn cuddio arwyddion a marciau ar y ffordd



# Problemau yn rheoli chwyn a malurion

Mae glyphosate wedi bod yn gyffredin iawn yn flaenorol fel chwynladdwr ond mae bellach wedi ei ganfod i fod yn beryglus i iechyd dynol a bywyd gwyllt. Disgwylir gwaharddiad ar ei ddefnyddio yn y DU mewn ychydig flynyddoedd.

Yn lle defnyddio glyphosate, mae llawer o gynghorau bellach yn defnyddio dulliau sy'n dibynnu mwy ar frwsio, sgubo, hofio a chwynnu â llaw. Mae'r defnydd o Foamstream, peiriant sydd yn lladd chwyn trwy eu gorchuddio ag olewau naturiol, yn effeithiol pan gaiff ei ddefnyddio'r briodol.

Mae cynnal a chadw arwynebau caled a thrwsio diffygion fel bod chwyn yn cael llai o gyfle i dyfu, hefyd yn bwysig wrth reoli chwyn a malurion.

# Safbwynt Cadwch Gymru'n Daclus ar arfer da

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cefnogi dull sydd yn sensitif i effeithiau amgylcheddol negyddol presenoldeb eithafol chwyn a malurion a'r niwed all ddigwydd o ganlyniad i ddefnyddio plaladdwyr. Mae arferion da a phethau newydd sydd yn cael eu dysgu yn parhau i ddod i'r amlwg wrth i gynghorau dreialu dulliau i leihau'r defnydd o chwynladdwyr.

Mae cynghorau wedi diffinio dyletswyddau i gadw strydoedd yn ddiogel ac o fewn safonau glendid penodol. Dylent sicrhau bod monitro cadarn yn digwydd i weld a yw chwyn a malurion heb eu gwirio yn niweidio ansawdd yr amgylchedd lleol ac a yw gorddefnyddio chwynladdwyr a thorri ymyl ffyrdd yn ddiangen yn niweidiol. Mae angen i arferion gael eu haddasu mewn ymateb i dywydd newidiol a glaw eithafol gan fod y rhain yn golchi malurion i mewn i gafnau sydd yn gwaethygu digwyddiadau o lifogydd.

Mae angen cydweithredu da ar draws adrannau'r cyngor (yn cynnwys glanhau strydoedd, rheoli gwastraff, gorfodi, parciau a phriffyrdd). Er enghraifft, mae'n bwysig sicrhau bod codi sbwriel yn digwydd cyn torri glaswellt a bod chwistrellu chwyn yn cael ei gydlynu â threfniadau glanhau strydoedd.

Dylid lleihau'r defnydd o chwynladdwyr sydd yn cynnwys glyphosate gymaint â phosibl ac ni ddylid eu defnyddio mewn ardaloedd lle mae llawer o ymwelwyr neu gerllaw cyrsiau dŵr a draeniau. Dim ond pan fo angen y dylid torri glaswellt ar ymylon ffyrdd a chylchfannau (er mwyn sicrhau gallu gweld yn dda) i gefnogi bioamrywiaeth a bywyd gwyllt.

Mae gan fentrau sydd yn annog balchder preswylwyr a busnesau yn yr amgylchedd lleol, fel codi sbwriel ac adfywio mannau gwyrdd, y potensial i addysgu a chynnwys cymunedau yn symud malurion a chwyn a chyfrannu at strategaethau sy'n dibynnu llai ar chwynladdwyr.

Noder: Mae papur canllaw llawn – yn cynnwys astudiaethau achos a dolenni i adnoddau – ar gael gan Cadwch Gymru'n Daclus.

caru
cymru

Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales